

Dylan Deinosor




Tric
aChlic



Deinosor drygionus
oedd Dylan.

1



Roedd Dylan yn hoffi
chwarae cuddio.

2



Roedd Llew Llygoden yn
chwilio amdano ond ...



roedd Dylan yn cuddio ar
ben y goeden.



Roedd Titw Tylluan yn
chwilio amdano ond ...




roedd Dylan yn
cuddio tu ôl i'r llwyn.



Roedd Cadi Cwningen yn
chwilio amdano ond ...

7



roedd Dylan yn cuddio yn
y sied yn yr ardd.

8



"Wel, ble mae Dylan Deinosor?"
gofynnodd Llew, Titw a Cadi.



Mae Dylan Deinosor yn y
sied yn yr ardd. Ydy Dylan
yn cuddio?

Nac ydy! Mae Dylan Deinosor
yn cysgu'n braf!

